Cyflwyno sgriptiau ar gyfer cynyrchiadau heb eu sgriptio

Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud ag ysgrifennu sgriptiau, ciwiau neu ddolenni ar gyfer cynhyrchiad heb ei sgriptio neu gyfarwyddo ysgrifennwyr eraill er mwyn iddyn nhw fedru cyflwyno'r hyn sydd ei angen. Gall hyn fod yn berthnasol i ddarllediadau, cyhoeddiad ar-lein neu ddefnydd aml-lwyfan.

Mae'n ymwneud ag ysgrifennu drafftiau, gwirio'r deunydd ysgrifenedig terfynol ar gyfer cywirdeb ac addasrwydd i'w bwrpas, ac awgrymu diwygiadau ac addasiadau mewn ffordd gynorthwyol ac adeiladol.

Mae hefyd yn ymwneud â gofalu bod y tôn a'r arddull ysgrifennu yn briodol ar gyfer y cynhyrchiad.

Bydd angen ichi fod yn ystyriol nad ydy'r broses greadigol, o ran ei natur, yn ddiriaethol. Felly, bydd angen ichi reoli ystod o berthnasau creadigol mewn ffordd hyblyg a chydweithredol er mwyn llunio sgript effeithiol.

Mae'r Safon hon yn arbennig ar gyfer y rheiny sydd ynghlwm â datblygu cynhyrchiad heb ei sgriptio gan gynnwys gweithredwyr cynhyrchu, cynhyrchwyr cyfresi a rheolwyr cynhyrchu.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. llunio cyfarwyddiadau sy'n cynnig gwybodaeth gywir ac eglur am ganfyddiadau'r gwaith ymchwil
2. cynhyrchu cyfarwyddiadau sy'n cydymffurfio gydag ymdriniaethau y cytunwyd arnyn nhw ynglŷn â darllediadau neu gyhoeddiadau ar-lein
3. gwirio fod cyfarwyddiadau ond yn trafod manylion hanfodol ac yn cynnig ffynonellau perthnasol ar gyfer cyngor a gwybodaeth bellach
4. caniatau digon o amser i ysgrifennu eitemau o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnyn nhw
5. sicrhau y caiff y cynnwys ei addasu pan fo'i angen er mwyn adlewyrchu newidiadau i gynyrchiadau
6. cadarnhau unrhyw newidiadau gyda gwneuthurwyr penderfyniadau
7. defnyddio gwybodaeth gan ffynonellau priodol er mwyn gwirio bod cyfraniadau ysgrifenedig yn ffeithiol gywir
8. ysgrifennu cyfraniadau mewn arddull a hyd sy'n briodol i'r ymdriniaethau y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer rhaglenni, trosleisio, dolenni, ciwiau neu ddefnydd aml-lwyfan
9. cynnig awgrymiadau eglur ar gyfer cywiro, diwygio neu wella ar adegau priodol
10. gofalu caiff gwaith ei gwblhau'n brydlon ac oddi fewn cyfyngiadau'r gyllideb
11. gofalu bod y cynnwys yn cydymffurfio gyda chanfyddiadau'r gwaith ymchwil, yr ymdriniaeth y cytunwyd arni, y defnydd bwriadedig ac arddull a ffurf y cynhyrchiad
12. gwirio bod y cynnwys ysgrifenedig a'r elfennau sain-gweledol yn ategu ei gilydd
13. gwirio bod y cynnwys ysgrifenedig yn cydymffurfio gydag ystyriaethau cyfreithiol a moesegol sy'n berthnasol i'r cynyrchiadau
14. cyfeirio deunydd a all fod yn sensitif i'r bobl briodol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sut i lunio cyfarwyddyd, sgript neu ymdriniaeth y cytunwyd arnyn nhw
2. sut i gynorthwyo ysgrifennwyr mewn ffordd ddefnyddiol
3. materion cyfreithiol a moesegol dichonol cyffredin a all godi yn y ffurf ysgrifenedig a sut i ddatblygu cynnwys neu sgriptiau i osgoi'r problemau hynny
4. y graddfeydd amser, cyllidebau a gofynion golygyddol ar gyfer drafftio cynnwys
5. at bwy ddylech chi gyfeirio deunydd a allai fod yn sensitif
6. yr arddulliau ysgrifennu priodol ar gyfer gwahanol fathau o lwyfannau cyflwyno
7. sut i lunio cyfarwyddiadau priodol ar gyfer gwahanol hydoedd o amser
8. sut i wirio sgriptiau a chynnwys ar gyfer cywirdeb
9. sut i gydweithio gydag eraill gan gynnwys sut i awgrymu gwelliannau neu ddewisiadau eraill mewn ffordd adeiladol

Cyflwyno sgriptiau ar gyfer cynyrchiadau heb eu sgriptio

Datblygwyd gan	ScreenSkills
Dyddiad cymeradwyo	31 Maw 2019
Dyddiad Adolygu Dangosol	30 Maw 2022
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	ScreenSkills
RCU gwreiddiol	SKSP4
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Rheolwyr Cynhyrchu, Cydlynydd Cynhyrchu, Cynorthwyydd Cynhyrchu
Cyfres/Set	Cynhyrchu (Ffilm a Theledu)
Geiriau Allweddol	Cynhyrchiad, Sgript, Heb ei sgriptio, Cyfarwyddiadau, Creadigol, Cynnwys